



Cyfaddawd e-bost busnes

Delio â negeseuon e-bost gwe-rwydo wedi'u targedu

Mae'r cyngor hwn, a gynhyrchwyd ar y cyd â'r Asiantaeth Troseddu Genedlaethol (NCA), yn eich helpu i adnabod yr arwyddion amlycaf o e-byst gwe-rwydo wedi'u targedu. Mae'r ymosodiadau hyn, a elwir hefyd yn gyfaddawd e-bost busnes, fel rheol yn cael eu hanfon at swyddogion gweithredol neu ddeiliaid cyllideb o fewn sefydliadau mwy er mwyn twyllo staff i drosglwyddo arian, neu ddatgelu gwybodaeth sensitif.



Beth yw cyfaddawd e-bost busnes?

Cyfaddawd e-bost busnes (a elwir hefyd yn BEC neu Dwyll Dargyfeirio Taliadau) yn fath o ymosodiad gwe-rwydo lle mae troseddwr yn ceisio twyllo uwch weithredwr (neu ddeiliad cyllideb) i drosglwyddo arian, neu ddatgelu gwybodaeth sensitif.

Mae'r troseddwr y tu ôl i BEC yn anfon e-byst argyhoeddiadol sy'n gallu gofyn am daliadau anarferol, neu sy'n gallu cynnwys dolenni i wefannau 'amheus'. Gall rhai e-byst gynnwys feirysau sydd wedi'u cuddio fel atodiadau diniwed, a weithredir wrth eu hagor.

Yn wahanol i e-byst gwe-rwydo safonol sy'n cael eu hanfon allan yn ddiwahân i filiynau o bobl, mae ymosodiadau BEC yn cael eu saernïo i apelio at unigolion penodol, a gallant fod hyd yn oed yn anoddach i'w canfod. Mae BEC yn fygythiad i bob sefydliad o bob maint ac ar draws pob sector, gan gynnwys sefydliadau dielw a'r llywodraeth.

Os ydych chi wedi dioddef BEC (Twyll Dargyfeirio Taliadau), riportiwch nawr i'ch banc neu cysylltwch ag Action Fraud ar 0300 1234 2040 (www.actionfraud.police.uk).

Gwnewch eich hun yn darged anoddach

Gall troseddwr ddefnyddio gwybodaeth amdanoch chi sy'n hawdd ei gweld ar eich gwaith a gwefannau preifat (gan gynnwys cyfrifon cyfryngau cymdeithasol) i wneud i'w negeseuon e-bost gwe-rwydo ymddangos yn fwy argyhoeddiadol.



Adolygwch eich gosodiadau preifatrwydd, a meddyliwch am yr hyn rydych chi'n ei bostio ar draws eich cyfrifon cymdeithasol a phroffesiynol.



Byddwch yn ymwybodol o'r hyn y mae eich ffrindiau, teulu a chydweithwyr yn ei ddweud amdanoch chi ar-lein, oherwydd y gall hyn hefyd ddatgelu gwybodaeth y gellir ei defnyddio i'ch targedu.



Os byddwch chi'n gweld e-bost amheus, **nodwch ef fel sbam/sothach yn eich blwch derbyn e-byst**. Dywedwch wrth eich adran TG eich bod wedi ei nodi fel rhywbeth a allai fod yn anniogel.



A fydd yr e-byst a **anfonwch** yn cael eu camgymryd am e-byst gwe-rwydo? Ystyriwch ddweud wrth gwsmeriaid am yr hyn y dylent edrych amdano (megis 'ni fyddwn ni byth yn gofyn am eich cyfrinair').

Beth i'w wneud os ydych chi eisoes wedi clicio?

Y peth pwysicaf yw peidio â chynhyrfu. Bydd gan eich adran TG gamau ar waith i helpu staff sy'n credu eu bod wedi cael eu gwe-rwydo.



Os ydych yn credu eich bod wedi dioddef ymosodiad gwe-rwydo, dywedwch wrth eich adran TG cyn gynted ag y gallwch. Po gynharaf y dywedwch wrthynt, y mwyaf tebygol y byddant yn gallu helpu.

Arwyddion awgrymiadol gwe-rwydo

Mae nodi e-bost gwe-rwydo yn dod yn fwyfwy anodd a bydd yn twyllo hyd yn oed y defnyddiwr mwyaf gofalus. Gall cael yr hyder i ofyn 'a yw hyn yn ddilys?' fod y gwahaniaeth rhwng aros yn ddiogel, neu gamgymeriad costus.



Meddyliwch am eich arferion gwaith arferol o ran trafodion ariannol. Os cewch e-bost gan sefydliad, nad ydych yn gwneud busnes ag ef, triniwch ef ag amheuaeth.



Cadwch lygad am e-byst sy'n ymddangos fel y maent yn dod oddi wrth berson uchel ei safle yn eich sefydliad, yn gofyn am daliad i gyfrif penodol. Edrychwch ar enw a chyfeiriad e-bost yr anfonwr. A yw'n swnio'n gyfreithlon, neu a yw'n ceisio dynwared rhywun rydych chi'n ei adnabod?



Sicrhewch fod pob cais pwysig mewn e-bost yn cael ei wirio gan ddefnyddio dull arall (megis neges SMS, galwad ffôn, mewngofnodi i gyfrif, neu gadarnhad trwy'r post neu'n bersonol).



A yw'r e-bost yn cynnwys bygythiad aneglur sy'n gofyn i chi weithredu'n frys? Byddwch yn amheus o eiriau megis 'anfonwch y manylion hyn o fewn 24 awr' neu 'rydych wedi dioddef trosedd, cliciwch yma ar unwaith'.



Bydd rhai e-byst yn ceisio creu e-byst sy'n ymddangos yn swyddogol trwy gynnwys logos a graffeg. A yw'r dyluniad (a'r ansawdd) yr hyn y byddech chi'n eu disgwyl?